Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

**Heol Pentrebaen**
**Y Tyllgoed**
**CF5 3PZ**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr |
| Awdurdod lleol | Cyngor Caerdydd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Uwchradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 1155 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 937 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | 218 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector uwchradd yw 20.2%) | 12.1% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector uwchradd yw 17.8%) | 4.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 46.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/01/2023 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/10/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 30/01/2023 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.
Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Crynodeb

Mae Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr yn gymuned glòs lle mae arwyddair yr ysgol, sef ‘Parch, Parodrwydd, Perthyn’, yn ganolog i bopeth. Mae’r gofal a’r gefnogaeth fugeiliol mae’r ysgol yn ei chynnig i’r disgyblion yn gryfder nodedig. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo’n ddiogel ac maent yn gwrtais ac yn ymddwyn yn dda. Mae llawer yn datblygu i fod yn ddinasyddion aeddfed.

Mae’r chweched dosbarth yn chwarae rôl allweddol ym mywyd yr ysgol. Maent yn arwain clybiau i ddisgyblion iau a’r nifer o fforymau sy’n cefnogi disgyblion I ddatblygu eu dealltwriaeth o oddefgarwch, cydraddoldeb a thegwch. Enghraifft nodedig o hyn yw’r grŵp ‘Newid Ffem’ ble mae disgyblion y chweched yn cefnogi merched iau'r  ysgol mewn amrywiaeth o ffyrdd. Yn gyffredinol, mae disgyblion y chweched dosbarth yn gwneud cynnydd cryf yn eu hastudiaethau academaidd.

Mae gan y pennaeth newydd weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, ac mewn cyfnod byr iawn, mae wedi adnabod y prif gryfderau a’r meysydd i’w gwella. Mae arweinwyr ar draws yr ysgol yn cynnig lefelau uchel o gynhaliaeth i staff ac arweiniad effeithiol o ran y ddarpariaeth les ac anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Cynigia’r llywodraethwyr gefnogaeth gref ac maent yn gweithredu eu rôl fel ffrind beirniadol yn briodol. Fodd bynnag, nid yw’r arweinyddiaeth o ran yr addysgu a’r dysgu yn ddigon effeithiol. Nid yw arweinwyr yn arfarnu ansawdd yr addysgu na’r ddarpariaeth ar gyfer y medrau yn ddigon miniog, gan nad ydynt yn rhoi digon o ystyriaeth i effaith y ddarpariaeth ar y dysgu. O ganlyniad, nid ydynt yn adnabod yn ddigon manwl yr agweddau penodol sydd angen eu gwella yn y meysydd hyn. Yn ogystal, nid yw arweinwyr yn dal y rhai maent yn eu harwain yn ddigon atebol am eu gwaith.

Mae’r ysgol yn cynnig cwricwlwm cytbwys a gaiff ei gyfoethogi gan y bartneriaeth werthfawr ag ysgolion uwchradd Cymraeg eraill Caerdydd. Mae gwaith yr ysgol ar gyfer y Cwricwlwm I Gymru yn datblygu’n briodol. Maent wedi cydweithio'n  addas â rhieni, staff, disgyblion a’r ysgolion cynradd yn y clwstwr i greu gweledigaeth glir, sydd wedi ei seilio ar sicrhau lles disgyblion, datblygu eu gwerthoedd a chynnig profiadau dysgu sy’n adeiladu ar ddysgu blaenorol.

Mae’r rhan fwyaf o athrawon yn meithrin perthnasoedd gwaith adeiladol â’u dosbarthiadau ac ym mwyafrif y gwersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu gwybodaeth bynciol. Mae gan lawer o ddisgyblion agweddau positif at eu dysgu. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, nid yw ansawdd yr addysgu yn ddigon da, ac mae ansawdd yr asesu a’r adborth i ddisgyblion yn anghyson. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn datblygu eu medrau’n briodol. Serch hyn, nid yw’r ddarpariaeth ar gyfer y medrau yn ddigon cydlynus, yn enwedig y ddarpariaeth ar draws y cwricwlwm ar gyfer datblygu medrau digidol a rhifedd disgyblion.

Mae diwylliant iach o ddiogelu o fewn yr ysgol, ond tynnwyd sylw’r  ysgol at ychydig o faterion iechyd a diogelwch yn ystod yr arolygiad.

## Argymhellion

A1 Gwella ansawdd arweinyddiaeth mewn meysydd penodol a sicrhau bod arweinwyr a staff yn cael eu dal yn atebol am eu gwaith.

A2 Cryfhau prosesau hunanwerthuso gan sicrhau bod y ddarpariaeth yn cael ei harfarnu yn ôl ei heffaith ar y dysgu.

A3 Gwella ansawdd yr addysgu a’r adborth lle nad yw’n ddigon effeithiol.

A4 Cryfhau’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn gynyddol.

A5 Mynd i’r afael â’r materion iechyd a diogelwch a godwyd yn ystod yr arolygiad.

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaethau achos ar ei gwaith mewn perthynas â’r ddarpariaeth lles, a rôl arweinyddol disgyblion y chweched dosbarth, i’w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Ym mwyafrif y gwersi, mae disgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd cadarn yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth bynciol. Maent yn adalw dysgu blaenorol yn briodol ac yn ei gymhwyso i sefyllfaoedd newydd. Mewn ychydig o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd buan a chryf, ond mewn lleiafrif o achosion lle nad yw'r addysgu'n ddigon effeithiol, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd.

Mae llawer o ddisgyblion yn cyfrannu'n synhwyrol at drafodaethau dosbarth neu grŵp ac mae'r mwyafrif yn frwdfrydig yn eu hymatebion. Mae llawer yn gwrando'n astud ac yn cyfrannu yn eu tro, ond mae lleiafrif yn troi i Saesneg wrth drafod gyda'i gilydd yn y dosbarth. Mae'r mwyafrif â medrau llafar cadarn, ac yn cyfleu eu syniadau'n glir, gan egluro a chyfiawnhau eu safbwyntiau gyda thystiolaeth. Mae lleiafrif yn cynnig ymatebion estynedig ac yn cyfleu eu barnau'n aeddfed, er enghraifft wrth esbonio pam mae 12 munud yr un peth ac un pumed o awr. Mae gan lawer o ddisgyblion eirfa gadarn yn y Gymraeg a Saesneg, ac maent yn defnyddio termau pynciol yn briodol. Fodd bynnag, mae lleiafrif â geirfa gyfyngedig ac yn cael trafferth mynegi eu hunain yn y Gymraeg, gan ddefnyddio geiriau neu ymadroddion Saesneg yng nghanol brawddegau. Mewn lleiafrif o achosion, nid yw'r athro'n sicrhau bod disgyblion yn ymateb mewn brawddegau neu'n gofyn iddynt ymestyn eu hymatebion.

Wrth ddarllen, mae llawer o ddisgyblion yn lleoli gwybodaeth yn hyderus ac yn echdynnu gwybodaeth yn dda er mwyn datblygu eu dealltwriaeth bynciol. Maent yn ymdrin ag amrywiaeth o destunau darllen yn addas. Gall lawer gyfuno tystiolaeth o ystod o ffynonellau i ddod i gasgliadau synhwyrol, er enghraifft wrth werthuso dehongliadau am Lloyd George yn y gwersi hanes. Mae mwyafrif y disgyblion yn dadansoddi testunau'n synhwyrol, gan ddarllen rhwng y llinellau yn gymwys, er enghraifft wrth ddadansoddi darnau o'r nofel '*Heroes*' yn Saesneg. Mae ychydig o ddisgyblion yn dadansoddi testunau darllen yn arwynebol ac yn rhy fecanyddol.

Mae llawer o ddisgyblion yn trefnu eu gwaith ysgrifenedig yn rhesymegol, gan ddefnyddio paragraffau'n gywir a brawddegu'n addas. Mae'r mwyafrif â geirfa gadarn yn y Gymraeg a Saesneg ac mae ychydig yn meddu ar eirfa soffistigedig, gyfoethog. Er hyn, mae lleiafrif y disgyblion yn camsillafu'n gyson ac mae ychydig yn gwneud camgymeriadau ieithyddol elfennol ac esgeulus. Nid yw ychydig yn cwblhau eu gwaith bob tro, ac mae diwyg eu gwaith yn flêr. Mae mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu'n addas mewn ystod o ffurfiau, er enghraifft wrth ysgrifennu ymson merch sy'n gweithio mewn ffatri. Mae ychydig yn addasu eu hysgrifennu'n fedrus ar gyfer gwahanol bwrpasau. Er enghraifft, mae disgyblion uwch eu gallu yn arddangos hyder a chreadigrwydd wrth ysgrifennu paragraff yn disgrifio bywyd yn y byd dystopaidd yn eu gwersi Saesneg ac yn defnyddio terminoleg soffistigedig wrth ysgrifennu.

Mae gan fwyafrif y disgyblion afael gadarn ar gysyniadau rhif ac maent yn eu defnyddio'n hyderus wrth wneud cyfrifiadau. Mae gan leiafrif fedrau rhif cryf iawn. Er enghraifft, mae'r disgyblion hyn yn dethol y wybodaeth angenrheidiol ac yn defnyddio'u dealltwriaeth o amrywiaeth o gysyniadau rhif wrth gyfrifo cost gwyliau tramor. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhif ar lefel addas o

her ar draws y cwricwlwm yn ddigon aml. O ganlyniad, nid yw lleiafrif y disgyblion yn hyderus wrth gymhwyso eu medrau rhifiadol mewn cyd-destunau newydd. Yn ogystal, nid yw gafael lleiafrif y disgyblion o gysyniadau rhif sylfaenol yn ddigon cadarn ac maent yn cael trafferth gwneud cyfrifiadau yn eu pen.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau siâp a mesur yn briodol. Maent yn trawsnewid yn hyderus rhwng Fahrenheit a Celsius, ac yn eu gwersi gwyddoniaeth, maent yn cyfrifo'r pellter oddi wrth storm o wybod buanedd sain a'r amser rhwng mellten a tharan. Maent yn cyfrifo arwynebeddau a chyfaint yn gywir ac yn dangos dealltwriaeth dda o fesurau cyfansawdd fel buanedd a dwysedd poblogaeth. Mae gan lawer o ddisgyblion fedrau dadansoddi data addas. Maent yn llunio graffiau cywir ac yn dadansoddi data sydd wedi ei arddangos mewn gwahanol ffurfiau i ddod i gasgliadau synhwyrol. Er enghraifft, yn eu gwersi dyniaethau, maent yn cyfrifo incwm cyfartalog y pen mewn gwahanol wledydd a dehongli eu canlyniadau.

Yn eu gwersi technoleg gwybodaeth, ac yn yr ychydig o gyfleodd sydd ar draws y cwricwlwm, mae disgyblion yn datblygu eu medrau digidol yn briodol. Er enghraifft, maent yn darganfod gwallau mewn codau yn eu gwersi cyfrifiadureg ac yn defnyddio agweddau mwy estynedig o daenlenni er mwyn creu cwis geometrig yn eu gwersi mathemateg.

Mae gan lawer o ddisgyblion fedrau meddwl cadarn. Yn eu gwersi gwyddoniaeth, mae disgyblion yn ystyried sut mae'r system dreulio'n cynyddu arwynebedd arwyneb molecylau bwyd er mwyn i ensymau eu dadelfennu'n rhwyddach. Yn eu gwersi drama, mae disgyblion yn gwerthuso a dadansoddi eu perfformiadau'n llwyddiannus gan gynnig gwelliannau addas. Mae llawer yn arddangos medrau corfforol priodol, er enghraifft wrth berfformio llaw safiad mewn gwersi gymnasteg. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn addas. Mae ychydig yn arddangos medrau creadigol arbennig yn eu gwaith technoleg a chelf, er enghraifft wrth astudio dulliau Salvador Dali a chreu darnau wedi'u hysbrydoli gan ei waith. Maent yn defnyddio gwahanol gyfryngau'n fentrus er mwyn cyfleu syniadau diddorol.

Mae llawer o ddisgyblion y chweched dosbarth yn mynegi eu barnau'n fedrus ac yn huawdl ar lafar ac yn ysgrifenedig ac yn meddu ar eirfa goeth a chywir. Yn gyffredinol, gwna disgyblion y chweched dosbarth gynnydd cryf yn eu medrau a'u gwybodaeth bynciol. Maent yn adalw gwybodaeth a dealltwriaeth flaenorol yn gadarn ac yn cymhwyso hyn i sefyllfaoedd newydd yn gelfydd. Er enghraifft, maent yn ddeallus ac aeddfed dros ben yn eu dehongliadau o gerddi William Blake neu fywyd a cherddi Dafydd ap Gwilym. Mae llawer ohonynt yn arddangos medrau meddwl cadarn, a gallant feddwl yn hyblyg a herio eu hunain a'i gilydd er mwyn ymestyn eu cyfraniadau a dyfnhau eu dealltwriaeth.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn chwarae rhan flaenllaw a gwerthfawr yn ymdeimlad teuluol a chynhaliol Plasmawr. Maent yn arddangos ymrwymiad amlwg at werthoedd yr ysgol o 'Barch, Parodrwydd, Perthyn.'

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn mwynhau bywyd ysgol. Mae llawer yn teimlo nad ydynt yn cael eu bwlio ac yn teimlo bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw achosion. Maent yn ymwybodol o'r cymorth a'r gefnogaeth sydd ar gael

iddynt yn wyneb achos o ofid. O ganlyniad i wasanaethau a gwersi lles, mae llawer yn ymwybodol o bwysigrwydd cadw'n ddiogel ar y we.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymddwyn yn waraidd o amgylch yr ysgol adeg egwyl, cinio ac wrth symud ar hyd y coridorau. Maent yn groesawgar a chwrtais, yn barod eu sgwrs gydag ymwelwyr ac yn ymddwyn yn dda mewn gwersi, gan arddangos parch ac agweddau aeddfed wrth wrando ar eu hathrawon. Mae mwyafrif y disgyblion yn meddu ar fedrau cymdeithasol aeddfed.

Mae llawer o ddisgyblion yn arddangos dygnwch wrth wynebu her ac yn meddu ar fedrau dysgu annibynnol da. Maent yn canolbwyntio ac yn dyfalbarhau â'u dysgu. Mewn llawer o achosion, mae'r cydweithio a'r rhyngweithio rhwng disgyblion yn dda iawn, yn enwedig mewn gwaith grŵp neu mewn parau, er enghraifft wrth drafod prif nodweddion hinsawdd y monsŵn mewn gwersi daearyddiaeth. Fodd bynnag, mae lleiafrif yn troi i'r Saesneg wrth drafod yn eu gwersi ac yn arddangos diffyg gofal at ddiwyg eu gwaith.

Mae llawer o'r disgyblion yn cyfranogi mewn arlwy gyfoethog o weithgareddau allgyrsiol. Mae hyn yn cynnwys sioeau cerdd, corau, clwb jamio, bandiau jazz a chwaraeon fel dawns, codi pwysau a gweithgareddau awyr agored. Maent hefyd yn mwynhau mynychu cyrsiau preswyl a theithiau amrywiol sy'n hybu eu dysgu, er enghraifft i wersylloedd Llangrannog a Glan-llyn, teithiau sgïo a hanes a Gwobr Dug Caeredin.

Mae cyfran uchel o ddisgyblion yn datblygu medrau arwain gwerthfawr iawn drwy'r 'Senedd Ysgol' a'r grwpiau arweinyddol. Mae pwyslais cryf yn yr ysgol ar grwpiau cyfranogiad fel 'Merched Mentrus', 'Bechgyn Bonheddig', 'Balch', 'Digon' a'r cyngor eco. Mae gwaith y grŵp disgyblion 'Newid Ffem' yn nodedig wrth iddynt weithio ar wella'r awyrgylch yn y tai bach trwy eu goruchwylio amser egwyl a chinio a chynnig adnoddau mislif a chyngor i ferched iau'r ysgol. Mae bron pob un o'r grwpiau hyn yn cael eu harwain yn frwd ac aeddfed gan y disgyblion, sy'n nodwedd bwerus. Mae hyn yn deffro ymwybyddiaeth eu cyfoedion o faterion fel cydraddoldeb, hawliau, parchu amrywiaeth, cynhwysiant a materion LHDTC+.

Mae disgyblion y chweched dosbarth yn arddangos agweddau cadarnhaol dros ben at eu dysgu. Maent yn cydweithio'n aeddfed a chynhyrchiol mewn grwpiau bach a pharau. Maent yn gyfeillgar a huawdl iawn ac yn chwarae rhan allweddol mewn cynnal a gweithredu ethos teuluol Plasmawr. Maent yn cyfathrebu'n goeth ac yn chwarae rhan flaenllaw wrth arwain, hyrwyddo a chynnal gweithgareddau, clybiau a grwpiau i'w cyfoedion iau. Maent yn cyfrannu'n llawn at fywyd a chymuned yr ysgol ac yn gweithredu fel mentoriaid ac anogwyr lles i'w cyfoedion ar sail hyfforddiant pwrpasol. Mae'r rhan fwyaf yn frwdfrydig am eu hastudiaethau ac yn falch eu bod yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae'r athrawon yn creu naws gartrefol ac mae perthnasoedd gwaith buddiol rhwng staff a disgyblion. Yn y gwersi hyn, mae arferion defnyddiol wedi eu sefydlu dros amser, sy'n sicrhau bod disgyblion yn setlo'n gyflym i waith ac yn cynnal eu canolbwyntio. Mae gan lawer o athrawon wybodaeth bynciol

gadarn ac maent yn darparu adnoddau deniadol. Maent yn rhoi cyfarwyddiadau clir ac yn esbonio cysyniadau'n effeithiol.

Ym mwyafrif y gwersi, mae athrawon yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer y dysgu, yn meddwl yn ofalus am y cynnydd y dymunant i'r disgyblion ei wneud ac yn modelu eu disgwyliadau. Maent yn sicrhau bod y gweithgareddau yn gydlynus, yn adeiladu ar ei gilydd ac yn cynnig her addas i'r disgyblion. Mae'r athrawon hyn yn sicrhau bod cydbwysedd addas rhwng yr amser mae'r athro yn cyflwyno, a'r amser sydd ar gael i ddisgyblion weithio'n annibynnol neu mewn grwpiau bach.

Mae llawer o athrawon yn fodelau iaith da sy'n bwydo terminoleg bynciol i ddisgyblion ac yn ehangu eu geirfa. Fodd bynnag, nid yw ychydig o athrawon yn ddigon gofalus yn eu defnydd o iaith. Maent yn tueddu i ddefnyddio ymadroddion neu eiriau Saesneg yng nghanol brawddegau Cymraeg.

Mewn ychydig o wersi, ceir addysgu o ansawdd arbennig. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn defnyddio'u gwybodaeth bynciol a'u hadnabyddiaeth o'r disgyblion yn fedrus i herio disgyblion i'r eithaf. Maent yn cynllunio gweithgareddau ysgogol sy'n adeiladu ar ei gilydd yn rhesymegol, gan sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd eithriadol yn eu gwybodaeth bynciol a'u medrau. Mae'r athrawon hyn yn rhoi cyflwyniadau bywiog ac yn esbonio cysyniadau cymhleth yn grefftus, gan sicrhau bod disgyblion yn deall bob cam. Maent yn holi disgyblion yn dreiddgar ac yn eu hannog i ddarganfod yr atebion yn annibynnol. Mae'r athrawon hyn yn addasu'r addysgu'n fedrus yn ôl y cynnydd mae disgyblion yn ei wneud.

Mewn lleiafrif o wersi, mae diffygion yn yr addysgu sy'n cyfyngu ar y cynnydd a wna'r disgyblion. Mae'r diffygion hyn yn cynnwys diffyg her, tasgau ailadroddus, taflenni gwaith neu lyfrynnau sydd ddim wedi eu cynllunio'n ddigon gofalus ac felly'n cyfyngu disgyblion, a chyflwyniadau rhy hir sy'n cwtogi'r amser sydd gan ddisgyblion i weithio. Yn y gwersi hyn, nid yw athrawon yn modelu eu disgwyliadau yn ddigon da.

Mewn ychydig o wersi, nid yw athrawon yn cynllunio'n ddigon gofalus i dywys y disgyblion drwy gysyniadau pynciol heriol mewn modd synhwyrol a rhesymegol. Nid yw'r athrawon hyn yn mynd i'r afael yn ddigon amserol â chamsyniadau disgyblion.

Mae llawer o athrawon yn monitro cynnydd disgyblion yn agos trwy gylchu'r dosbarth. Maent yn cynnig adborth llafar defnyddiol er mwyn helpu'r disgyblion i gwblhau'r gwaith ac maent yn mynd i'r afael â chamsyniadau disgyblion mewn modd amserol. Mae llawer o athrawon yn holi disgyblion yn addas i fonitro pa mor dda maent yn adalw gwybodaeth. Pan fo'n briodol, mae athrawon yn defnyddio strategaethau asesu sy'n eu caniatáu i weld ymatebion yr holl ddisgyblion, gan ddefnyddio'r wybodaeth hon i adnabod camsyniadau'r disgyblion. Fodd bynnag, dim ond mewn lleiafrif o achosion mae athrawon yn holi disgyblion yn dreiddgar er mwyn dyfnhau eu dealltwriaeth a datblygu eu medrau llafar.

Yn gyffredinol, mae ansawdd yr adborth mae athrawon yn ei gynnig ar waith disgyblion yn anghyson. Yn y lleiafrif o arferion gorau, mae athrawon yn adnabod y cryfderau a'r meysydd i'w gwella yng ngwaith disgyblion. Maent yn cynnig cyngor penodol ar sut mae disgyblion yn gallu datblygu eu dealltwriaeth bynciol ymhellach a sut y gallant wella eu medrau llythrennedd. Mae'r athrawon hyn yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion wella eu gwaith ac yn sicrhau bod disgyblion yn ymateb yn

bwrpasol i'r adborth. Fodd bynnag, yn rhy aml, nid yw'r cyngor mae athrawon yn ei gynnig yn ddigon diagnostig, neu nid ydynt yn sicrhau bod disgyblion yn gweithredu ar yr adborth i wella eu gwaith.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm cytbwys a chynhwysol sy'n diwallu anghenion bron pob disgybl ar draws yr ystod oedran. Cynigir ystod eang o gyrsiau academaidd a galwedigaethol yng Nghyfnod Allweddol 4 a'r chweched dosbarth. Mae'r arlwy o gyrsiau sydd ar gael yn y chweched dosbarth wedi ei hehangu trwy'r cydweithio effeithiol â'r ddwy ysgol uwchradd Gymraeg arall yng Nghaerdydd. Trwy gyrsiau megis mathemateg ychwanegol ym Mlwyddyn 11 a'r ddarpariaeth allgyrsiol, mae cyfleoedd gwerthfawr i ymestyn y disgyblion mwy abl. Ar gyfer y disgyblion mwyaf bregus, mae'r ysgol yn cydweithio â darparwyr allanol i gynnig cwricwlwm amgen gwerthfawr. Trwy hyn, a'r gefnogaeth lles gref, prin iawn yw'r achosion o ddisgyblion sy'n symud oddi ar y gofrestr yng nghyfnod allweddol 4. Mae'r ysgol yn gwneud gwaith effeithiol i godi uchelgais disgyblion a'u cefnogi i wneud penderfyniadau yn unol â'u dyheadau gyrfaol.

Mae gan uwch arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru sydd wedi'i llunio ar y cyd â rhanddeiliaid ac wedi'i seilio'n gadarn ar hybu gwerthoedd yr ysgol a sicrhau bod y profiadau'n dod â'r dysgu yn fyw i'r disgyblion. Mae staff yn cydweithio'n ofalus â'r ysgolion cynradd yn y clwstwr i sicrhau bod y cwricwlwm yn adeiladu'n fuddiol ar ddysgu blaenorol y disgyblion.

Eleni, mae'r ysgol wedi cynllunio'n briodol i flaenoriaethu datblygu medrau llafar a darllen disgyblion. Mae cydlynwyr y medrau wedi dechrau cydweithio'naddas gydag adrannau i adnabod cyfleoedd i ddatblygu llythrennedd a rhifedd. Yn gyffredinol, mae cyfleoedd priodol i ddisgyblion gymhwyso eu medrau llafar, darllen ac ysgrifennu ar draws y cwricwlwm. Mewn pynciau perthnasol tu hwnt i fathemateg, mae ychydig o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhif ar lefel sylfaenol. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd ar y lefel briodol. Er mwyn cefnogi'r disgyblion sydd angen mwy o gymorth gyda llythrennedd a rhifedd, mae gan yr ysgol raglen addas o ymyraethau. Ar hyn o bryd, nid oes cyfleoedd pwrpasol tu hwnt i'r pwnc technoleg ddigidol i ddisgyblion ddatblygu eu huwch fedrau digidol ar draws y cwricwlwm. Yn gyffredinol, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau disgyblion wedi'i chynllunio'n gydlynus ar draws y cwricwlwm er mwyn sicrhau cynnydd priodol yn y dysgu.

Mae trefniadau'r ysgol yng Nghyfnod Allweddol 3 ar gyfer datblygu medrau emosiynol a chymdeithasol disgyblion yn gynhwysfawr. Yn y gwersi iechyd a lles, myfyrdodau dyddiol a'r gwasanaethau wythnosol, mae disgyblion yn cael cyfleoedd buddiol i ystyried a gwerthfawrogi amrywiaeth. Nodwedd gref o hyn yw'r ffordd mae grwpiau disgyblion megis 'Merched Mentrus, 'Balch' a 'Digon' yn gwneud gwaith blaengar wrth hyrwyddo cydraddoldeb. Mae'r grwpiau hyn yn cael eu harwain gan y disgyblion ac yn weithredol iawn wrth ddatblygu dealltwriaeth o oddefgarwch ar sail crefydd, hil, rhywioldeb a hawliau merched.

Mae cynlluniau priodol i hyrwyddo Cymreictod a hybu'r defnydd o'r Gymraeg trwy weithgareddau amrywiol fel y dyddiau her, 'Radio Plasmawr' a gwaith y grŵp 'Tafod'. Serch hyn, nid yw staff bob amser yn gweithredu egwyddorion cynllun Cymreictod yr ysgol yn ddigon cyson.

Cyfoethogir profiadau dysgu'r disgyblion trwy arlwy eang o brofiadau allgyrsiol amrywiol, er enghraifft clybiau ac ymarferion chwaraeon, perfformiadau celfyddydol a theithiau diwylliannol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad**

Mae Ysgol Plasmawr yn gymuned ofalgar a chynhwysol sy'n cefnogi anghenion emosiynol a chymdeithasol disgyblion yn dda. Mae sicrhau lles disgyblion yn flaenoriaeth amlwg yn yr ysgol. Mae staff y 'Tîm Cynnydd a Lles' a'r adran ADY yn meddu ar wybodaeth gynhwysfawr am anghenion disgyblion ac maent wedi llwyddo i feithrin perthynas agos a chynhaliol â nhw. Maent yn gweithio'n agos â'i gilydd i gefnogi anghenion emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol disgyblion penodol, gan sicrhau eu bod yn barod i ddysgu a chael y gorau o fywyd ysgol. Mae'r ysgol wedi ailstrwythuro'r 'Tîm Cynnydd a Lles' yn bwrpasol yn dilyn yr heriau a wynebwyd ar ôl y cyfnod clo er mwyn ymateb yn well i anghenion disgyblion. Mae rôl y cwnselydd, y swyddog presenoldeb, y swyddog lles a chynhwysiant, a'r anogwyr dysgu yn cyfrannu'n werthfawr at lwyddiant y ddarpariaeth lles.

Mae gan yr ysgol systemau bugeiliol cryf. Mae cyfathrebu clir rhwng y tîm hwn a gweddill y staff yn golygu bod y staff wedi'u harfogi'n bwrpasol i sicrhau adnabyddiaeth gynhwysfawr o'r disgyblion. Mae system effeithiol i olrhain presenoldeb. Mae ymyraethau pwrpasol er mwyn mynd i'r afael ag absenoldebau.

Mae'r tîm ADY yn meddu ar ddealltwriaeth drylwyr o anghenion disgyblion ag ADY, ac maent yn darparu cefnogaeth benodol, fuddiol iddynt. Mae'r ysgol wedi paratoi'n briodol ar gyfer bodloni gofynion y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg. Mae'r cynlluniau addysg unigol yn darparu gwybodaeth fanwl am anghenion disgyblion, ac yn cynnwys targedau penodol. Mae rhaglen hyfforddi ddefnyddiol o strategaethau amrywiol i athrawon a chynorthwywyr gefnogi disgyblion penodol yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r 'Tîm ADY' yn defnyddio nifer o ffynonellau i adolygu ei ddarpariaeth i ddisgyblion unigol yn rheolaidd ac yn addasu yn ôl anghenion y disgybl. Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol i ddod i adnabod anghenion disgyblion yn gynnar trwy'r broses pontio bugeiliol gryf. Er enghraifft, mae staff yn mynychu adolygiadau Blynyddoedd 5 a 6 er mwyn creu cyswllt â'r teuluoedd ac i helpu'r disgyblion i ymgartrefu.

Mae'r ysgol yn ymateb yn gadarnhaol i ofynion carfanau gwahanol o ddisgyblion ac yn teilwra ei darpariaeth yn ofalus i ddiwallu eu hanghenion. Yn y 'Ganolfan Gynnal ADY', mae disgyblion o bob oedran yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i ddatblygu eu medrau bywyd yn llwyddiannus mewn amgylchedd diogel ac ysgogol. Mae disgyblion sy'n mynychu'r 'Dosbarth Lles' yn derbyn cefnogaeth bwrpasol ac yn teimlo'n ddiogel. Yma, mae'r disgyblion yn cael mynediad at ddarpariaeth amrywiol ac addas er mwyn eu cynorthwyo i ddelio â'u hemosiynau ac i ymdopi â bywyd dyddiol. Er enghraifft, maent yn cael cyfrifoldeb am arian ac yn siopa am gynhwysion cyn y wers arlwyo.

Mae'r 'Ardal Gynnydd', lle lleolir y 'Tîm Cynnydd a Lles', yn cynnig hafan i ddisgyblion ac mae'r lloches, gofal a chefnogaeth a geir yno yn hybu eu hyder ac agweddau cadarnhaol tuag at eu gwaith. Mae'r ysgol yn darparu llu o ymyraethau yn ogystal â dulliau amgen fel therapi cerdd a chelf i wella lles emosiynol disgyblion. Yma, mae disgyblion sydd wedi'u heffeithio gan anfantais gymdeithasol-economaidd yn elwa ar

gymorth ymarferol, er enghraifft y cyfle i gael brecwast yn y boreau o dan y cynllun ‘Brecwast Maeth’, ailgylchu llawlyfrau pynciol a derbyn gwisg ysgol ail-law, fel y bo angen. Cydweithia’r ysgol yn agos ag amryfal asiantaethau allanol er mwyn cynnig cefnogaeth bersonol o ansawdd uchel i’r disgyblion. Mae’r rhain yn cynnwys gwasanaethau plant, y nyrs a swyddog cyswllt yr heddlu.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda. Gwneir hyn trwy wasanaethau, sesiynau myfyrio yn y cyfnodau cofrestru a’r rhaglen ABCh gynhwysfawr.

Mae’r trefniadau manwl ar gyfer sicrhau bod disgyblion yn ddiogel wedi arwain at ddiwylliant cryf o ddiogelu o fewn yr ysgol. Mae staff a llywodraethwyr yn derbyn hyfforddiant buddiol, rheolaidd yn y maes hwn, ac o ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth dda o’u rolau. Ceir trefniadau cadarn ar gyfer cofnodi a chyfeirio materion diogelu neu amddiffyn plant. Gwna arweinwyr ddefnydd effeithiol o wybodaeth berthnasol o amrywiol ffynonellau i adnabod disgyblion bregus a sicrhau eu bod yn monitro lles y disgyblion hyn yn ofalus. Fodd bynnag, tynnwyd sylw’r ysgol at faterion iechyd a diogelwch yn ystod yr arolygiad.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Ers ei benodiad yn Ionawr 2023, mae’r pennaeth newydd wedi cyfathrebu ei weledigaeth yn glir ac yn synhwyrol i gymuned yr ysgol. Ei nod yw creu ysgol ag iddi amgylchedd Cymraeg a Chymreig sy’n gynhwysol, diogel, hapus a gofalgar lle gall disgyblion a staff ffynnu a chyflawni eu llawn botensial. Mae arweinwyr yn rhoi pwyslais cryf ar les disgyblion a staff. Maent yn cynnig lefelau uchel o gefnogaeth iddynt ac yn hyrwyddo diwylliant deuluol a gofalgar.

Cefnogir y pennaeth yn gadarn gan y dirprwy bennaeth. Er bod yr uwch dîm rheoli yn gweithio'n dda â'i gilydd, mae’r cyfrifoldebau ar draws y tîm arwain yn gorgyffwrdd. Mae hyn yn creu dryswch ac yn rhwystro arweinwyr rhag mynd i’r afael â gwella’r addysgu a’r dysgu, a dal pobl yn atebol am eu gwaith.

Yn gyffredinol, mae arweinwyr canol yn deall eu rolau wrth gefnogi a gofalu am ddisgyblion a hyrwyddo diwylliant o ddiogelu. Mae trefniadau i arweinwyr canol gwrdd â’u harweinwyr maes i drafod materion perthnasol yn briodol ac mae bron pob aelod o staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi gan arweinwyr. Mae gan yr arweinwyr a'r staff raglen gynhwysfawr o gyfarfodydd i rannu gwybodaeth a thrafod agweddau o waith yr ysgol. Serch hyn, mae’r cyfarfodydd yn canolbwyntio’n ormodol ar faterion gweithredol ar draul cynllunio strategol. O ganlyniad, mae hyn yn cyfyngu ar allu’r arweinwyr i sicrhau atebolrwydd.

Nid yw systemau rheoli perfformiad yr ysgol yn ddigon effeithiol. Nid yw’r amcanion yn ddigon miniog ac nid yw’r trefniadau monitro a gwerthuso yn ddigon cadarn. Nid yw’r trefniadau ychwaith wedi cynnwys arsylwi gwersi llawn yn y ddwy flynedd diwethaf. Nid oes gan y broses hon y manylder na'r trylwyredd sydd ei angen i yrru gwelliannau yn yr ystafell ddosbarth. O ganlyniad, nid yw arweinwyr yn dwyn staff i gyfrif yn ddigon effeithiol am y ddarpariaeth maent yn ei chynnig i’r disgyblion.

Mae arweinwyr yn rhoi sylw addas i flaenoriaethau cenedlaethol. Mae pwyslais cryf ar fynd i’r afael ag effaith tlodi ar ddisgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am

ddim neu ddisgyblion o gartrefi incwm isel. Rhoddwyd hyfforddiant gwerthfawr i helpu staff i ddeall yn well sgil-effeithiau tlodi ac amddifadedd ar gyrhaeddiad a lles plant, a sut i ymateb yn well i faterion emosiynol ac ymddygiadol. Mae arweinwyr wedi creu swyddi ychwanegol newydd i fynd i'r afael â materion lles, megis swyddog lles a chynhwysiant ac anogwyr dysgu. At ei gilydd, mae'r ysgol yn paratoi'n gynhyrchiol i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru. Mae'r cynllunio strategol ar gyfer datblygu Cymreictod disgyblion a'u gwerthfawrogiad o dreftadaeth Gymreig yn rhan o drefniadaeth yr ysgol, ond nid yw'r arweinwyr wedi sicrhau ei fod yn cael ei weithredu'n ddigon cyson. Nid yw'r arweinyddiaeth strategol ar gyfer datblygu'r medrau wedi bod yn ddigon llwyddiannus.

Mae arweinwyr yn cyfathrebu'n effeithiol ac yn meithrin perthynas gynhyrchiol â rhieni. Maent yn llythyru rhieni'n rheolaidd gyda diweddariadau am drefniadau ac am waith yr ysgol. Mae'r ysgol yn dathlu llwyddiannau'r disgyblion yn dda trwy gylchlythyru a negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol.

Mae gan yr ysgol galendr o weithgareddau hunanwerthuso lled briodol sy'n cynnwys crwydrau dysgu yn ôl themâu penodol a chyfleoedd i arweinwyr graffu ar waith disgyblion. Yn raddol, mae arweinwyr yn ailgyflwyno trefn o arsylwadau gwersi llawn. Mae arweinwyr ar bob lefel yn dadansoddi data perfformiad yn fuddiol ac yn defnyddio hwn i gynllunio gwelliannau i'r ddarpariaeth yn eu meysydd cyfrifoldeb. Mewn amser byr, mae'r pennaeth newydd wedi dod i adnabod y prif gryfderau a'r meysydd i'w gwella yn yr ysgol yn gyflym iawn. Mae gan arweinwyr afael gryf ar effaith y gefnogaeth lles mae'r ysgol yn ei chynnig i ddisgyblion ac maent yn cynllunio'n fuddiol i gryfhau'n barhaus yr agwedd hon o'u gwaith. Fodd bynnag, nid yw'r arweinwyr ar bob lefel yn arfarnu'r addysgu yn sgil ei effaith ar y cynnydd mae disgyblion yn gwneud. Yn ogystal, mae'r drefn o gynnal crwydrau dysgu yn ôl themâu penodol wedi rhwystro arweinwyr rhag caffael darlun cyflawn o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella. O ganlyniad i'r diffygion hyn, nid oes gan yr arweinwyr y dystiolaeth lawn sydd ei hangen arnynt er mwyn cynllunio'n finiog ar gyfer gwelliant.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang iawn o gyfleoedd i'r staff ddatblygu eu hymwybyddiaeth o faterion cyfoes sy'n deillio o waith ymchwil. Mae aelodau staff hefyd yn rhannu eu harbenigedd a'u profiadau wrth dreialu technegau addysgol penodol yn y 'Clwb Brecwast' wythnosol. Yn ogystal, ceir cyfleoedd i fynychu cyrsiau sy'n berthnasol iddynt yn dilyn y broses rheoli perfformiad. Mae'r ysgol hefyd yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i athrawon gydweithio ag adrannau eraill a staff mewn ysgolion eraill i ddatblygu'u cwricwlwm. Serch hyn, oherwydd nad yw'r arweinwyr yn hollol glir ynghylch y gwendidau penodol sydd yn y ddarpariaeth, mae'r rhaglen dysgu proffesiynol yn rhy gyffredinol.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn o'r ysgol. Mae strwythur addas o is-bwyllgorau a chyfarfodydd er mwyn rhannu gwybodaeth am waith yr ysgol. Mae'r llywodraethwyr yn hyddysg am nifer o agweddau o waith yr ysgol, gan gynnwys diogelu a chyllid. Fodd bynnag, nid oes ganddynt drosolwg digon cadarn o'u rôl i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r pennaeth, y rheolwr busnes a'r llywodraethwyr, yn rheoli gwariant yn ofalus. Maent yn gwneud defnydd pwrpasol o grantiau, gan gynnwys y Grant Datblygu Disgyblion, i gefnogi anghenion disgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Fodd bynnag, nid ydynt yn gwerthuso effeithiolrwydd y cynllun hwn yn ddigon trylwyr.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (http://www.estyn.gov.wales/)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW    neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: http://www.estyn.gov.wales/

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad Cyhoeddi: 03/04/2023